**TUDALEN 1**

Cofnodion **Cyfarfod Blynyddol Cyngor Dinas Bangor** a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn a thrwy fideo-gynadledda Zoom, **nos Lun, 16 Mai 2022** at 6.30 p.m.

**YN BRESENNOL: -** Eu Teilyngdod y Maer, Cynghorydd Owen Hurcum
Y Dirprwy Faer, Cynghorydd Gwynant Roberts
Cynghorwyr : Dylan Fernley, Medwyn Hughes, Elin Walker Jones, Huw Wyn Jones, John Wynn Jones, Kieran Jones, Nigel Pickavance, John Wyn Williams.
Swyddogion:- Martin Hanks, Clerc y Dref dros dro, Gwynfor Owen (Cyfieithu), Sioned Jones (Cofnodi)

**Am 6.30 pm daeth Eu Teilyngdod y Maer, gyda Chlerc y Dref a'r Cynghorydd John Wynn Jones, i mewn i Siambr y Cyngor.**

**Galwodd y Maer ar y Cynghorydd John Wynn Jones i offrymu gweddi.**

**01/22 YMDDIHEURIADAU**
Derbyniwyd ymddiheuriadau gan

**02/221 DATGAN BUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**
Dim.

**03/22 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD**
Roedd teulu a chyfeillion yn bresennol i gefnogi'r Maer newydd.

**04/22 ANERCHIAD GAN Y MAER SY'N GADAEL**
Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Maer oedd yn ymddeol, yn enwedig y Cynghorwyr newydd. Dywedodd ein bod wedi byw mewn cyfnod rhyfedd: hwn fyddai ei gyfarfod olaf fel Maer ond yr un cyntaf lle'r oedd pawb yn gallu dod ynghyd yn Neuadd y Penrhyn. Fodd bynnag, roedd y Cyngor wedi gweithredu'n llwyddiannus iawn yn ystod y Pandemig, ac roedd yn dymuno diolch i holl staff y Cyngor am sicrhau fod pethau'n rhedeg yn llyfn. Roeddent yn arbennig o falch o rai gwasanaethau, megis y gyllideb newydd, y sylw i fannau gwyrdd a'r cynllun banc bwyd Covid. Roedd y gwaith caled a'r buddsoddiad yn y Pier wedi cyrraedd uchafbwynt pan enillwyd gwobr Pier y Flwyddyn. Diolchwyd i bawb yr oeddent wedi gweithio ochr yn ochr â nhw ar bob lefel a dymunwyd yn dda i'r Cyngor newydd.

**05/22 ETHOL MAER**
Gofynnodd y Maer am enwebiadau i swydd Maer am y Flwyddyn Ddinesig 2022/22023.

Cynigiwyd ac eiliwyd enw'r Cynghorydd Gwynant Roberts. Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill.

Gwnaed y cynnig gan y Cyng John Wynn Jones ac eiliwyd gan y Cyng John Wyn Williams. Dywedodd y Cyng Jones ei bod yn bleser ganddo gynnig enw Cyng Roberts. Bu'n ddirprwy Faer y llynedd a bu'n gweithio'n galed iawn yn y cefndir. Byddai'n gaffaeliad i'r Cyngor ac yn Faer gwerth chweil. Roedd pawb o blaid.

**TUDALEN 2**
**PENDERFYNWYD:** ethol Cyng Gwynant Roberts yn Faer ar gyfer y flwyddyn ddinesig newydd.

Yna gadawodd y Maer i newid ei wisg.

Wedi dychwelyd i'r Siambr, arwisgodd y Maer oedd yn ymddeol y Maer etholedig newydd â Chadwyn y Swydd. Yna darllenodd y Maer newydd y Datganiad Derbyn Swydd fel Maer Cyngor Dinas Bangor ym mhresenoldeb Clerc y Dref dro, Swyddog Priodol y Cyngor, a lofnododd y Datganiad yn ei dro.

**06/22 ANERCHIAD GAN EI DEILYNGDOD Y MAER**
Diolchodd y Maer newydd i'w gynigydd a'i eilydd a'i gyd-gynghorwyr am roi eu ffydd ynddo, a dywedodd y byddai'n fraint dilyn y Cynghorydd Hurcum. Fel y soniwyd, bu'n ddwy flynedd ddigon rhyfedd, ac roedd am ddiolch i'r holl staff. Cyfeiriodd at Joy a Stan a oedd bellach wedi ymddeol ar ôl blynyddoedd lawer o wasanaeth i'r Cyngor a dywedodd, mewn amgylchiadau gwahanol, byddai achlysur wedi bod i ddiolch iddyn nhw. Diolchodd hefyd i Martin Hanks am gamu i'r adwy mor fedrus dros y 6 mis diwethaf. Cyfeiriodd ar rai Cynghorwyr oedd wedi ymddeol wedi rhoi blynyddoedd o wasanaeth, yn arbennig y Cynghorwyr Les Day, Derek Hainge a John Martin, yn ogystal â rhai mwy diweddar. Byddai colled ar eu hôl ac ar ôl eu gwybodaeth drylwyr am y Cyngor. Eto i gyd, roedd hi'n dda cael gwaed newydd ac anogodd y Cynghorwyr newydd i fwrw iddi a pheidio â chael eu dychryn gan yr hen lawiau!

Er gwaethaf Covid, gwelwyd cynnydd mewn sawl maes, yn arbennig y Pier. Diolch i'r Cyng Hurcum, Ffrindiau Pier Garth Bangor a'u gwirfoddolwyr, roedd y Pier wedi'i drawsnewid ac wedi cael proffil ardderchog. Roedd y banciau bwyd wedi gweithio'n dda iawn, diolch i'r cyn Gynghorydd Colin King a Christine, ynghyd â Steve Collinge a'u llu o wirfoddolwyr. Roedd yr arwyddion wrth ddod i mewn i Fangor a'r gwaith ar gaeau chwarae Maes Tryfan yn enghreifftiau pellach o waith tîm ardderchog. Credai fod Covid wedi'n dysgu fod yn rhaid i ni i gyd gymryd cyfrifoldeb.

Credai mai'r flaenoriaeth gyntaf i'r Cyngor fyddai penodi Cyfarwyddwr Dinesig. Mae adfer y Stryd Fawr yn her enfawr.

**08/22 ETHOL DIRPRWY FAER**
Gwahoddodd y maer enwebiadau i swydd y Dirprwy Faer. Cynigiwyd enw'r Cyng Elin Walker Jones gan y Cyng Meic Pattison ac eiliwyd gan y Cyng John Wyn Jones. Dywedodd y ddau ei bod yn bleser enwebu'r Cyng Walker Jones gan iddi fod yn brysur iawn gyda sawl ymgyrch yn y ddinas ac mae hi wedi gwneud gwaith rhagorol yn ei ward. Bu'n gefnogol i bopeth y mae'r Cyngor wedi rhoi ar waith.

**PENDERFYNWYD:** ethol y Cyng Elin Walker Jones yn Ddirprwy Faer Cyngor Dinas Bangor am y flwyddyn ddinesig newydd, 2022/2023.
Yna amwisgodd y Maer y Cyng Walker Jones â chadwyn y swydd.

Wrth dderbyn y swydd, llongyfarchodd y Cyng Walker Jones y Maer ar gael ei ethol. Yna diolchodd i'w chynigydd a'i heilydd ac i'r cynghorwyr am ei hethol. Roedd hi'n ei theimlo'n anrhydedd mawr cael ei ethol ac ymrwymodd i wneud ei gorau i gefnogi'r Maer a'i chyd-gynghorwyr, ac i roi Bangor ar y map.

**08/22 CYMERADWYO CYFARFOD BLYNYDDOL 10 MAI 2021**

Cadarnhawyd a CHYMERADWYWYD y cofnodion.

**09/22 CYTUNO AR AMSERLEN CYFARFODYDD Y CYNGOR 2022/2023**

Roedd Clerc y Dref wedi dosbarthu amserlen cyfarfodydd am y flwyddyn ddinesig sy'n dod.
**PENDERFYNWYD** derbyn yr amserlen.

**10/22 CADARNHAU STRWYTHUR PWYLLGORAU'R CYNGOR**

Roedd y Cynghorwyr wedi cytuno i adolygu strwythur y pwyllgorau ar ddechrau'r flwyddyn newydd. Fodd bynnag, teimlid y byddai'n ddoeth aros nes bod aelodaeth lawn y Cyngor wedi'i chadarnhau.
**PENDERFYNWYD** gohirio'r eitem hon.

**11/22 CADARNHAU'R RHEOLAU SEFYDLOG**

Cadarnhawyd y Rheolau Sefydlog.

**12/22 ETHOL CYNRYCHIOLWYR I GYRFF ALLANOL A MUDIADAU LLEOL**

**PENDERFYNWYD** gohirio'r eitem hon.

Daeth y Cyfarfod i ben am 7.20 p.m.